# Goruchwylio a chynnal effeithiolrwydd y broses casgliadau dyledion

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â goruchwylio a chynnal effeithiolrwydd y broses casglu dyledion. Mae hyn yn cynnwys y gefnogaeth a roddir i staff yng nghyswllt achosion cymhleth, a monitro cytundebau lefel gwasanaeth a thargedau i gynnal lefelau perfformiad ac effeithlonrwydd gweithredol. Mae'n cwmpasu monitro prosesau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, a'u bod yn arddangos ansawdd ac uniondeb. Mae'r safon hon wedi'i bwriadu ar gyfer unigolion sydd â chyfrifoldebau goruchwylio neu reoli ym maes Casgliadau Dyledion.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Gwirio bod penderfyniadau'n cael eu cymryd ar adegau priodol a chyda'r awdurdod cywir, yng nghyswllt cyfrifon dyledwyr, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
2. Monitro a chynnal cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer proses casglu dyledion effeithiol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
3. Gwirio bod targedau yn eu lle i fonitro perfformiad prosesau casglu dyledion, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
4. Nodi a chofnodi anghenion hyfforddi staff a threfnu hyfforddiant sy'n briodol ar gyfer yr anghenion hynny, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
5. Darparu cefnogaeth briodol i staff sy'n delio gydag achosion cymhleth y mae angen eu hesgaladu yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
6. Gwirio bod yr holl wiriadau ansawdd angenrheidiol yn cael eu cyflawni'n briodol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
7. Cynorthwyo gyda chyflwyno a phrofi prosesau newydd i wella casglu dyledion
8. Gwirio argaeledd gwybodaeth ac ystadegau rheoli priodol, ac a ydynt wedi cael eu cynnal
9. Gwirio bod prosesau casglu dyledion yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol, trwyddedau a rheoliadau'r diwydiant, safonau moesegol, polisïau sefydliadol a chodau ymarfer proffesiynol
10. Cadw cofnodion cywir wedi'u diweddaru yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Pwy yw'r llunwyr penderfyniadau yn eich sefydliad, a'u lefelau awdurdod cysylltiedig
2. Sut mae mesur cytundebau lefel gwasanaeth
3. Sut mae rhoi targedau ar waith a'u monitro
4. Sut mae adnabod anghenion hyfforddi, a'r datrysiadau hyfforddi mwyaf priodol sydd ar gael
5. Dulliau o ddarparu goruchwyliaeth a chefnogaeth, a phryd mae eu defnyddio
6. Y mathau o achosion cymhleth y gall fod angen i chi ddelio gyda nhw a'r opsiynau sydd ar gael i'w datrys
7. Dulliau o wirio ansawdd ac uniondeb gwaith a wnaed
8. Pryd mae rhoi systemau newydd ar waith, a sut mae gwneud hynny'n effeithiol
9. Sut mae defnyddio a dehongli gwybodaeth reoli yn effeithiol
10. Gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer cofnodi a storio gwybodaeth
11. Ymarfer a gweithdrefnau eich sefydliad yng nghyswllt adnabod, hybu a chymhwyso safonau moesegol
12. Gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso deddfau, trwyddedau, rheoliadau a chodau fel y maent yn effeithio ar eich gweithgareddau

## Ymddygiadau

1. Rydych yn cyfathrebu'n glir
2. Rydych yn ysbrydoli eraill i gyflawni eu hamcanion
3. Rydych yn ymateb i anghenion eraill
4. Rydych yn arddangos pendantrwydd a hyder wrth weithredu
5. Rydych yn arddangos cysondeb wrth wneud penderfyniadau
6. Rydych yn gweithredu ag uniondeb bob amser
7. Rydych yn wyliadwrus ynghylch risgiau posibl, gan gynnwys gweithgaredd twyllodrus
8. Rydych yn ymdrin â'ch gwaith mewn modd trefnus
9. Rydych yn ymddwyn yn broffesiynol ac yn gwrtais wrth ddelio gydag eraill
10. Rydych yn cyflawni tasgau gan roi sylw dyledus i bolisïau a gweithdrefnau eich sefydliad, gan gynnwys y rhai sy'n ymdrin â safonau moesegol a iechyd a diogelwch yn y gwaith

FSPDC08

Goruchwylio a chynnal effeithiolrwydd y broses casgliadau dyledion

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPDC08 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Casgliadau Dyledion |
| **Geiriau Allweddol** | Ôl-ddyledion; credyd; ad-dalu; peidio â gwneud ad-daliadau; heb eu talu; risg; ansolfedd; credydwr; dyledwr; esgaladu. |